***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 3275 (Cy.313)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Sir Fynwy (Newidiadau Etholiadaol) 2002

*Wedi'i wneud - - 6 Rhagfyr 2002*

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2)*

Yn unol ag adrannau 58(1) a 64 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**) cyflwynodd Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru gynigion ym Mawrth 2000 ar gyfer trefniadau etholiadol y dyfodol ar gyfer Sir Fynwy. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi cytuno â'r cynigion, yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 58(2) a 67(4) a (5) o'r Ddeddf.

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Sir Fynwy (Newidiadau Etholiadaol) 2002

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym:

(a) at ddibenion achosion sy'n arwain at unrhyw etholiad neu'n ymwneud ag unrhyw etholiad, sydd i'w gynnal ar 6 Mai 2004, ar 9 Hydref 2003; ac

(b) at bob diben arall, ar 6 Mai 2004.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "adran etholiadol" ("*electoral division*") yw un o adrannau etholiadol Sir Fynwy fel y'i sefydlwyd gan Orchymyn Trefniadau Etholiadol Sir Fynwy1994(**2**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972;

ystyr "map" ("*map*") yw'r map a farciwyd "map Gorchymyn Sir Fynwy (Newidadau Etholiadol) 2002" ac a adneuwyd yn unol â Rheoliad 5 o Reoliadau Newidadau yn Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976(**3**).

### Adrannau Etholiadol

**2.**—(1) Mae adrannau etholiadol presennol Sir Fynwy a bennir yn yr Atodlen i Orchymyn Trefniadau Etholiadol Sir Fynwy 1994 wedi'u diddymu.

(**1**) 1972 p.70.
(**2**) Cafodd y Gorchymyn hwn ei wneud ar 19 Rhagfyr 1994 gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Gartref.
(**3**) O.S. 1976/246, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Newidiadau yn Ardaloedd Llywodraeth Leol (Diwygio) 1978 (O.S. 1978/247).

(2) At ddibenion ethol cynghorwyr ar gyfer Sir Fynwy, rhennir y Sir honno yn 42 o adrannau etholiadol yn dwyn yr enwau a bennir yng ngholofn (1) o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn, a bydd pob adran etholiadol o'r fath yn ffurfio'r ardal a bennir yng ngholofn (2) o'r Atodlen honno, fel y'i dynodir ar y map ac fel y'i diffinnir â llinellau coch.

(3) Y nifer a bennir mewn perthynas â'r adran yng ngholofn (3) o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn fydd y nifer o gynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer pob adran etholiadol o'r fath.

**Y Gofrestr o Etholwyr Llywodraeth Leol**

**3.** Rhaid i'r swyddog cofrestru wneud unrhyw ad-drefniadau neu addasiadau i'r gofrestr o etholwyr llywodraeth leol sy'n angenrheidiol am fod y Gorchymyn hwn yn dod i rym.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

*E. Hart*
Y Gweinidog dros Lywodraeth Leol, Cyllid a Chymunedau

6 Rhagyfr 2002

## YR ATODLEN

Erthygl 2

**Enwau, ardaloedd a'r nifer o gynghorwyr ar gyfer adrannau etholiadol Sir Fynwy**

| (1)<br>Enw'r Adran Etholiadol | (2)<br>Ardal yr Adran Etholiadol | (3)<br>Y Nifer o Gynghorwyr |
|---|---|---|
| Caer-went | Cymuned Caer-went | 1 |
| Castell Caldicot | Ward Castell Caldicot yng Nghymuned Caldicot | 1 |
| Cantref | Ward Cantref yng Nghymuned y Fenni | 1 |
| Y Castell | Ward Castell y Fenni | 1 |
| Croesonnen | Wardiau Dwyrain Croesonnen a Gorllewin Croesonnen yng Nghymuned Llandeilo Bertholau | 1 |
| Crucornau Fawr | Cymunedau Crucornau Fawr a'r Grysmwnt | 1 |
| Devauden | Cymunedau Devauden a Llan-gwm | 1 |
| Llanddewi | Ward Llanddewi yng Nghymuned Caldicot | 1 |
| Dixton gydag Osbaston | Ward Dixton gydag Osbaston yng Nghymuned Trefynwy | 1 |
| Drybridge | Ward Drybridge a ward y Dref yng Nghymuned Trefynwy | 1 |
| Goetre Fawr | Cymuned Goetre Fawr | 1 |
| Green Lane | Ward Green Lane yng Nghymuned Caldicot | 1 |
| Grofield | Ward Grofield yng Nghymuned y Fenni | 1 |
| Lansdown | Ward Lansdown Yng Nghymuned y Fenni | 1 |
| Larkfield | Ward Larkfield yng Nghymuned Cas-gwent | 1 |
| Llanbadog | Cymunedau Gwehelog Fawr a Llanbadog | 1 |
| Bryn Llanelli | Cymuned Llanelli | 2 |
| Llan-ffwyst Fawr | Wardiau Llanelen, Llan-ffwyst a Llanwenarth Citra yng Nghymuned Llan-ffwyst Fawr | 1 |
| Llangybi Fawr | Cymunedau Llangybi, Llanhenwg a Llantrisaint Fawr | 1 |

| (1) Enw'r Adran Etholiadol | (2) Ardal yr Adran Etholiadol | (3) Y Nifer o Gynghorwyr |
|---|---|---|
| Llanofer | Cymunedau Llan-arth a Llanofer | 1 |
| Llandeilo Gresynni | Cymunedau Llangatwg Feibion Afel a Llandeilo Gresynni | 1 |
| Llanwenarth Tu Draw | Ward Llanwenarth Tu Draw yng Nghymuned Llan-ffwyst Fawr | 1 |
| Y Maerdy | Wardiau'r Maerdy, Pantygelli, Dwyrain Ysgyryd a Gorllewin Ysgyryd yng Nghymuned Llandeilo Bertholau | 1 |
| Mill | Wardiau The Mill, Denny a Salisbury yng Nghymuned Magwyr gyda Gwndy | 1 |
| Llanfihangel Troddi | Cymuned Llanfihangel Troddi | 1 |
| Overmonnow | Ward Overmonnow yng Nghymuned Trefynwy | 1 |
| Porth Sgiwed | Cymuned Porth Sgiwed | 1 |
| Y Priordy | Ward y Priordy yng Nghymuned y Fenni | 1 |
| Rhaglan | Cymuned Rhaglan | 1 |
| Rogiet | Cymuned Rogiet | 1 |
| Hafren | Ward Hafren yng Nghymuned Caldicot | 1 |
| Drenewydd Gelli-farch | Cymunedau Matharn a Drenewydd Gelli-farch | 1 |
| St. Arvans | Cymunedau St. Arvans a Thyndyrn | 1 |
| St. Christopher's | Ward St. Christopher's yng Nghymuned Cas-gwent | 1 |
| St. Kingsmark | Ward St. Kingsmark yng Nghymuned Cas-gwent | 1 |
| St. Mary's | Ward St. Mary's yng Nghymuned Cas-gwent | 1 |
| The Elms | Ward The Elms yng Nghymuned Magwyr gyda Gwndy | 1 |
| Thornwell | Ward Thornwell yng Cymuned Cas-gwent | 1 |
| Tryleg Unedig | Cymuned Tryleg Unedig | 1 |

| (1)<br>Enw'r Adran Etholiadol | (2)<br>Ardal yr Adran Etholiadol | (3)<br>Y Nifer o Gynghorwyr |
|---|---|---|
| Brynbuga | Cymuned Brynbuga | 1 |
| West End | Ward West End yng Nghymuned Caldicot | 1 |
| Wyesham | Ward Wyesham yng Cymuned Trefynwy | 1 |




## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

O dan adran 64(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i hamnewidwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994) yr oedd yn ofynnol i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru adolygu'r trefniadau etholiadol cyn gynted â phosibl ar ôl yr etholiadau cyntaf i'r awdurdodau unedol ym Mai 1995.

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi ei effaith i'r cynigion a wnaed yn adroddiad Mawrth 2000 Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer Sir Fynwy.

Er bod y Gorchymyn yn diddymu'r holl adrannau etholiadol presennol yn y Sir ac yn eu disodli ag adrannau etholiadol newydd, yn ymarferol bydd y mwyafrif ohonynt yn aros yr un fath.

Nid oes unrhyw newid i adrannau:

> **Croesonnen, Crucornau Fawr, Goetre Fawr, Larkfield, Llanbadog, Bryn Llanelli, Llanffwyst Fawr, Llangybi Fawr, Llanofer, Llandeilo Gresynni, Llanwenarth Tu Draw, Y Maerdy, Llanfihangel Troddi, Overmonnow, Porth Sgiwed, Rhaglan, Rogiet, St. Arvans,**

**St. Christopher's, St. Kingsmark, St. Mary's, Thornwell, Tryleg Unedig, Brynbuga, Wyesham.**

Mae cymuned bresennol **y Fenni** i'w rhannu i greu pum adran etholiadol y bydd pob un ohonynt yn ethol un cynghorydd:

**Cantref, Y Castell, Grofield, Lansdown, Y Priordy.**

Mae cymuned bresennol **Caldicot** i'w rhannu i greu pum adran etholiadol y bydd pob un ohonynt yn ethol un cynghorydd:

**Castell Caldicot, Dewstow, Green Lane, Hafren, West End.**

Ar hyn o bryd mae adran bresennol **Caer-went** yn cynnwys Cymunedau Caer-went a Matharn. O dan y trefniadau newydd bydd adran etholiadol Caer-went yn cynnwys Cymuned Caer-went. Bydd yr adran yn ethol un cynghorydd.

Ar hyn o bryd mae adran bresennol **Drenewydd Gelli-farch** yn cynnwys Cymunedau Devauden, Llan-gwm a Drenewydd Gelli-farch. O dan y trefniadau newydd mae **Drenewydd Gelli-farch** yn cynnwys Cymunedau **Matharn** a **Drenewydd Gelli-farch** ac yn ethol un cynghorydd.

Mae adrannau etholiadol newydd yn cael eu creu ar gyfer:

**Devauden**, sy'n ethol un cynghorydd. Mae'r adran i gynnwys cymunedau **Devauden** a **Llan-gwm**.

Mae **Dixton gydag Osbaston** i ethol un cynghorydd. Mae'r adran i gynnwys ward **Dixton gydag Osbaston** yng Nghymuned Trefynwy.

**Drybridge**, sy'n ethol un cynghorydd. Mae'r adran i gynnwys ward **Drybridge** a ward y **Dref** yng Nghymuned Trefynwy.

**Mill**, sy'n ethol un cynghorydd. Mae'r adran i gynnwys wardiau **The Mill, Denny** and **Salisbury** yng Nghymuned **Magwyr gyda Gwndy.**

**The Elms**, sy'n ethol un cynghorydd. Mae'r Adran i gynnwys ward **The Elms** yng Nghymuned **Magwyr gyda Gwndy**.

Mae ardaloedd yr adrannau newydd wedi'u diffinio ar y map manwl a ddisgrifir yn Erthygl 2, ac y gellir archwilio printiau ohono ar bob adeg resymol yn swyddfeydd y Cyngor Sir ac yn swyddfeydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ (Yr Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol).